ADDYSG GYMRAEG

Y GORAU O DDAU FYD.
PROFIADAU RHIENI LLEOL.

WELSH MEDIUM EDUCATION

THE BEST OF BOTH WORLDS.
LOCAL PARENTS' EXPERIENCES.

menteriaith
SIR Y FFLINT

Sir y Fflint
Flintshire

mudiad meithrin

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFLWYNIAD

Croeso! Mae'n bleser cael cyflwyno'r daflen unigryw hon i rieni a darpar-rieni Sir y Fflint. Prif amcan y daflen yw cyflwyno gwybodaeth am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, cefnogaeth i rieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â manteision cyffredinol dwyieithrwydd. Mae'n adnodd unigryw oherwydd ei fod wedi'i dargedu at bobl Sir y Fflint trwy seilio'r cynnwys yn uniongyrchol ar brofiadau personol rhieni'r ardal.

Penderfynu ar addysg eich plentyn fydd un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnewch fel rhiant. Cofiwch fod cyngor a chefnogaeth ar gael gan lu o fudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg wrth i chi bwyso a mesur eich dewisiadau.

Mae mwy a mwy o deuluoedd yn Sir y Fflint yn mwynhau'r manteision sy'n dod o ddwyieithrwydd. Cyflwynir rhai o'u straeon yma, fel tystiolaeth bod plant (a'u rhieni hefyd!) wir yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg. Felly peidiwch â meddwl ddwywaith cyn mentro - ewch amdani - wnewch chi ddim difaru!

Ariannwyd y llyfryn hwn gan Gronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg
This booklet was funded by the Glyndŵr Trust for Welsh Schools
www.cronfaglyndwr.net

INTRODUCTION

Welcome! It's a pleasure to present this unique leaflet to the parents and prospective parents of Flintshire. The leaflet's main objective is to provide information about the authority's current Welsh-medium provision, support available for families who choose Welsh education, and the general wider advantages of bilingualism. It's a unique resource specifically created for the people of Flintshire as the content is directly based on the experiences of local parents.

As a parent, deciding on your child's education will be one of the most important decisions you will ever make. Remember that you can seek advice and support from a number of organisations who work to promote the Welsh language as you weigh up your options.

More and more families in Flintshire are enjoying the benefits of bilingualism. Some of their stories are featured here, as proof that whatever your linguistic background, children (and their parents too!) really do benefit from Welsh medium education.

So don't give it a second thought – go for it – you won't regret it!



MAE DWYIEITHRWYDD YN FANTAIS I'CH PLENTYN

- Does dim rhaid i chi fel rhiant fod yn rhugl neu'n hyderus yn y Gymraeg er mwyn anfon eich plentyn i ysgol Gymraeg. Mae 64% o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn dod o deuluoedd lle nad yw Cymraeg yn cael ei siarad yn y cartref*. Mae'n berffaith bosib i blant ffynnu heb fod ei rieni yn siarad Cymraeg gyda nhw – ond os medrwch, mi fydd o'n fwy o fantais fyth iddyn nhw!
- Nid yw medru mwy nag un iaith yn beth anghyffredin – mae rhwng 60% a 75% o boblogaeth y byd yn siarad mwy nag un iaith.
- Mae plant yn caffael ar iaith - mae'n llawer haws i faban neu blentyn ifanc ddysgu iaith nag yw hi i oedolion.
- Mae dwyieithrwydd yn gwneud dysgu ieithoedd tramor yn haws o lawer, mantais glir yn yr ysgol uwchradd a'r brifysgol.
- Mae dwyieithrwydd yn ehangu gorwelion plant, gan fod ganddynt fynediad i ddau ddiwylliant.
- Mae ymchwilwyr o Ganada wedi profi fod dwyieithrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymennydd trwy'i gadw'n weithgar a hyd yn oed yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o gael dementia.
- Cyfleoedd byd gwaith - mae cyflogwyr yn gynyddol edrych am weithlu sydd yn meddu ar sgiliau dwyieithog cyflawn. Mae astudiaethau yn dangos bod unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn ennill rhwng 9 - 11% yn fwy na phobl uniaith.**

* Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2011

** Gyrfa Cymru

BILINGUALISM GIVES YOUR CHILD AN ADVANTAGE

- You don't have to be a Welsh speaker yourself for your child to benefit from Welsh medium education. 64 % of children in Flintshire who enter Welsh medium education come from families where Welsh is not spoken at home*. It's perfectly possible for children to thrive without parents speaking Welsh to them – but of course, if you can then, you are giving them an even greater advantage!
- The ability to speak more than one language isn't uncommon. Between 60% and 75% of the world's population speaks more than one language.
- Children acquire languages quickly - it is far easier for a young child to learn a language than it is for adults.
- Bilingual children also find foreign languages easier to learn – a clear advantage at high school and university.
- Bilingualism broadens children's horizons, as they will have access to two cultures.
- Researchers from Canada have demonstrated that bilingualism has a positive effect on the brain by keeping it active later in life and has even been shown to reduce the risk of dementia.
- Opportunities in the workplace - employers are increasingly looking to employ staff possessing comprehensive skills in both Welsh and English. Studies show that people will Welsh language skills earn 9 – 11% more than monolingual people. **

* Pupil Level Annual School Census (PLASC) January 2011

** Careers Wales

CWESTIYNAU CYFFREDIN - CYNGOR GAN RIENI SIR Y FFLINT

BETH OS NAD YDW I'N SIARAD CYMRAEG YN DDA, NEU DYDYN NI DDIM YN SIARAD CYMRAEG ADREF?

"Ceisiwch ddod o hyd i grwpiau lle gall y plant deimlo'n rhan o gymuned Gymraeg – capel, clybiau, criwiau drama ac ati, fel eu bod yn meddwl am y Gymraeg fel iaith naturiol eu bywydau pob dydd, nid iaith yr ysgol yn unig."

SUT ALLA I GYNORTHWYO GYDA GWAITH CARTREF?

"Gwnewch ddefnydd o deulu, ffrindiau a chymdogion sydd yn siarad Cymraeg."

"Ymweld â'r llyfrgell - adnoddau cyfoes newydd am ddim, a gallwch eu cyfnewid yn rheolaidd."

SUT ALLA I GYFLWYNO'R GYMRAEG I FY MHLANT CYN IDDYN NHW GYCHWYN YSGOL?

"I helpu'ch plant, manteisiwch ar y cyfle i ddechrau'n gynnar gyda grwpiau Ti a Fi. Ewch i wersi Cymraeg eich hunain - mae'na lawer o ddewis o wersi i oedolion, rhai â crèche, rhai am ddim."

"Mae yna CDs, gwefannau, rhaglenni teledu, llyfrau, posteri, matiau lle bwyd, bagiau, capiau a gemau ar gael yn y Gymraeg."

"Siarada Cymraeg efo nhw, hyd yn oed jest y pethau sylfaenol fel "Sws i Mam", a "Nos da". Rhaglenni Cymraeg yn dda hefyd - gwylia dipyn bach o 'Cyw' efo'r plant."

COMMON QUESTIONS - ADVICE FROM FLINTSHIRE PARENTS

WHAT IF I'M NOT A WELSH SPEAKER MYSELF?

"Look for groups where your children can feel part of a Welsh-speaking community – chapel, clubs, drama groups etc, so that they think of Welsh as a natural language in which to live their lives, and not just a language they speak at school."

HOW CAN I HELP WITH HOMEWORK?

"Make use of Welsh speaking family, friends and neighbours."

"Visit the library – you get modern resources for free and you get to exchange them."

HOW CAN I INTRODUCE WELSH TO MY CHILD BEFORE THEY START SCHOOL?

"To help your children, take advantage of the opportunity to start early, through attending Cylch Ti a Fi. Go to Welsh lessons yourself – there's a wide choice of lesson for adults, some with crèches and some for free."

"There are CDs, websites, television programmes, books, posters, place mats, bags, hats and games all available in Welsh."

"Speak Welsh to them, even if it's just the basics like "Sws i Mam" and "Nos da". Welsh television programmes are good too – watch a bit of 'Cyw' with the kids."

ASTUDIAETH ACHOS 1 - RUTH A JON

MAE RUTH A JON YN BYW YM MHENYFFORDD. NI AETHANT DRWY ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG EU HUNAIN. MAE GANDDYNT DAU FAB.

"Mi oedd yn benderfyniad anodd iawn i ddanfon ein bechgyn i ysgol Cymraeg. Poenais na fuaswn i'n gallu helpu hefo'u gwaith cartref, a buasai eu Saesneg yn dioddef. Does neb yn ein teulu yn siarad Cymraeg. Ond, fel mam newydd roeddwn i eisiau'r gorau i fy mhlant, felly holais drigolion ein pentref am ysgolion Cymraeg. Roedden nhw'n llawn clod am ein hysgol Cymraeg lleol. Gan ystyried eu sylwadau, siaradais gyda'r ymwelydd iechyd. Eglurodd hi fod siarad Cymraeg yn fantais fawr yn yr ardal yma wrth geisio am swyddi, ac aeth hi ymlaen i egluro bod ymennydd plentyn fel sbwng - yn sugno gymaint o wybodaeth ag y gallai. Ffoniais bennaeth ein hysgol leol, a chefais wahoddiad i ymweld â'r ysgol a wnaeth hi ddileu fy mhryderon. Ar ôl y cyfarfod roeddwn i'n benderfynol; Roedd meintiau llai'r dosbarthiadau yn golygu bod gan yr athrawon fwy o amser i dreulio gyda'r plant, ac yng nghefn fy meddwl, gwyddwn os oedd fy mhlentyn yn cael trafferth gyda'i ieithoedd roedd hi dal yn bosibl i'w symud i ysgol Saesneg, ond o leiaf y byddai wedi cael cyfle trwy'r Gymraeg.

Rho gynnig arni!!! Mae fy mhlant bellach yn siarad Cymraeg heb ymdrech. Mae fy mab hynaf yn yr ysgol uwchradd, ac yn dysgu Ffrangeg yn rhwydd, a dw i'n credu bod hyn o ganlyniad iddo ddysgu iaith arall o oed ifanc. Dw i'n falch iawn o be mae fy mhlant wedi cyflawni, ac yn sicr ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir am eu hysgol.

Saesneg yw'r iaith a siaradir yn y cartref, ond mae'n wych i glywed ein bechgyn yn cyfathrebu efo siaradwyr Cymraeg. Mae o fel petai ganddyn nhw switch ac maen nhw'n medru newid o un iaith i'r llall mewn chwinciad chwannen... Bendigedig!!!

CASE STUDY 1 - RUTH AND JON

RUTH AND JON LIVE IN PEN-Y-FFORDD. NEITHER ATTENDED WELSH MEDIUM SCHOOLS. THEY HAVE TWO SONS.

"It was a very hard decision to make, sending our boys to a Welsh school. I was very worried that I couldn't help with their homework and that their English would suffer. Nobody in our family can speak fluent Welsh. But as a new mother, I obviously wanted what was best for my children and began to chat about Welsh schools to local villagers. They had nothing but praise for our local Welsh school. Taking their comments on board, I decided to chat with my health visitor about it. She informed me about the advantages of speaking Welsh when applying for jobs in our local area and went on to explain that a child's brain is like a sponge – absorbing as much information as it possibly could. I rang the Head teacher of our local school and she invited me for a tour of the school and ironed out my concerns. After our meeting my decision was made; the class sizes were far smaller than at the English school thus meaning more time for the teachers to spend with the children, and at the back of my mind I believed that if my child began to struggle with his languages, I could move him to an English school but at least he had been given the Welsh opportunity.

Give it a go!!! My two children now speak fluent Welsh effortlessly. My older son, now in high school, is picking up French easily and I believe that this is due to him being taught another language from an early age. I am very proud of what my children have achieved and have definitely made the right decision about their school.

English is the language that we use in our house, but it is fascinating to hear our boys interact with Welsh speakers. It is as if they have a switch and they can flick from one language to the other at the drop of a hat..... Brilliant!!"

ASTUDIAETH ACHOS 2 - BRONWEN

CAFODD BRONWEN EI GENI YN ABERYSTWYTH, OND BELLACH MAE HI'N BYW GYDA'I GŴR A MAB YN SIR Y FFLINT.

"Cefais fy ngeni yn Aberystwyth, ond symudais i Sir y Fflint pan oeddwn yn 13. Mae fy ngŵr o Runcorn, a heb ddysgu siarad Cymraeg. Siaradais Gymraeg gyda Mam a nain a thaid, ond oedd fy addysg trwy gyfrwng Saesneg. Dewisodd ein mab fynd i Ysgol Uwchradd Maes Garmon, trwy'r 'Cwrs Trochi'. Cwrs yw hwn sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, ond sydd am ddod i ysgol uwchradd Cymraeg.

I ddechrau roedd yna noson agored wedi anelu at "ddysgwr", ac ar ddechrau mis Mehefin aeth y dysgwyr i'w ysgol newydd ar gyfer cwrs trochi 5 wythnos, gan gynnwys wythnos breswyl yng ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn. Ein mab oedd yr unig un o'i ysgol gynradd i ddewis y cwrs trochi, a mwynhaodd o'r cychwyn cyntaf gan wneud ffrindiau newydd a chael dod i adnabod yr athrawon cyn i flwyddyn 7 dechrau. Mae'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hwyliog, efo llawer o gemau a gweithgareddau. Mae'r athrawon yn gefnogol iawn o'r dysgwyr. Mae ein mab wedi dysgu'r un pynciau a chyrraedd yr un lefel â phlant ag aeth i ysgolion cyfrwng Saesneg. Er iddo ddysgu trwy gyfrwng iaith newydd, nid yw ei lefelau ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol wedi gostwng. Mae maint y dosbarth yn fach iawn, felly mae'r plant yn cael mwy o sylw ac yn magu perthynas da gyda'r athrawon. Yn barod mae ein mab yn sôn am astudio Lefelau Uwch trwy'r Gymraeg. Dw i'n hapus i argymell Ysgol Maes Garmon i rieni sy'n ystyried y cwrs trochi."

CASE STUDY 2 - BRONWEN

BRONWEN WAS BORN IN ABERYSTWYTH, BUT NOW LIVES IN FLINTSHIRE WITH HER HUSBAND AND SON.

"I was born in Aberystwyth, but moved to Flintshire when I was 13. My husband is from Runcorn, and has never learnt Welsh. I spoke Welsh to my Mum and my grandparents as a child, but my education was entirely through the medium of English. Our son chose to attend Ysgol Maes Garmon for his secondary education, going through the 'Cwrs Trochi' offered to pupils in year 6 of English medium primary schools choosing to attend Welsh medium secondary school.

Initially, there was an open evening aimed entirely at children entering the school as "Dysgwyr" and at the beginning of June all the learners went to their new school for a 5 week language immersion course, which included a week long residential course at the Glan Llyn Urdd centre near Bala. Our son was the only child from his primary school to choose Ysgol Maes Garmon, and he loved the "Cwrs Trochi", making lots of new friends and getting to know the teachers before year 7 even started. The children are introduced to Welsh in a fun way with lots of games and activities. The teachers are all very supportive of the learners. Our son has covered the same topics and is at the same level as the children from his primary school who went to English medium secondary schools. Despite learning in a new language his anticipated levels at the end of the Key Stage have not diminished. The class size is very small, so that children receive more attention and build a good relationship with the teachers. Our son already talks about studying for A Levels through the medium of Welsh. I would not hesitate to recommend Ysgol Maes Garmon to parents of children in English-medium primary schools."

ASTUDIAETH ACHOS 3 - LOWRI

MAE LOWRI YN GYFREITHIWR. MAE GANDDI TRI PHLENTYN SY'N MYNYCHU ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YN YR WYDDGRUG.

"Rwy'n dod o Abertawe yn wreiddiol. Roedd Mam wedi dysgu Cymraeg yn rhugl, a Dad wedi gwneud ymdrech dda i ddysgu, felly magwyd fi a fy chwaer yn ddwyieithog. Es i ysgolion cyfrwng Cymraeg cyn symud i Loegr i'r brifysgol.

Credaf fod siarad Cymraeg yn hynod o bwysig gan ei fod yn hybu teimlad cryf o fod yn perthyn i gymuned leol, yn ogystal â hanes a diwylliant cenedl. Mae'n iaith gyfoethog ac yn brydferth. Mae plentyn dwyieithog yn gallu cysylltu â phob agwedd o'i gymuned a'i genedl. Mae dwyieithrwydd hefyd yn helpu plentyn i ymgymryd ag ieithoedd eraill ac i fod yn ymwybodol o wledydd a diwylliannau eraill ledled y byd."

CASE STUDY 3 - LOWRI

LOWRI IS A SOLICITOR. SHE HAS THREE CHILDREN WHO ATTEND WELSH MEDIUM SCHOOLS IN MOLD.

"I come from Swansea. My Mam learnt to speak Welsh fluently, and Dad made a determined effort to learn Welsh, so my sister and I were raised bilingually. I went to a Welsh medium school before going to university in England.

I believe that speaking Welsh is incredibly important as it fosters feelings of being part of a local community, as well as of a nation with a culture and history. The Welsh language is rich and beautiful. Bilingual children have contact with every aspect of their nationality and community. Also, bilingualism helps children to learn other languages, and to be aware of other countries and cultures across the world."

MUDIADAU LLEOL/LOCAL ORGANISATIONS

menteriaith
SIR Y FFLINT

Bwriad Menter Iaith yw cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

The main aim of Menter Iaith is to sustain and enhance the use of Welsh in the county.

Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, CH7 1XP
01352 744040
gwybod@menteriaithsirfflint.co.uk
www.menteriaithsirfflint.co.uk

SYFFLAG
Sir y Fflint dros Addysg Gymraeg

Sefydlwyd SYFFLAG er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Mae pob un o'r pum ysgol gynradd Cymraeg yn y sir yn cael eu cynrychioli yn y grŵp.

SYFFLAG has been set up by parents to promote Welsh-medium education in Flintshire. All five Welsh- medium primary schools are represented in the group.

admin@syfflag.org

urdd.org

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad cyffrous a deinamig i blant a phobl ifanc. Mae'n darparu amrywiaeth o weithgareddau ar draws Cymru gyfan ac yn croesawu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd.

The Urdd is an exciting, dynamic movement for children and young people. It organises a range of different activities across Wales. Welsh speakers and learners are welcomed.

Darren Morris,
Swyddog Datblygu Fflint a Wrecsam
Development Officer
07976003323
Darrenm@urdd.org

rhag

Cymdeithas genedlaethol sydd am gefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ac am roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant.

Parents for Welsh Medium Education exists to support and promote education through the medium of Welsh throughout Wales and to ensure equal opportunities for those who wish their children to be taught through the medium of Welsh.

Ceri Owen, Swyddog Datblygu
Development Officer
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd, CF23 8RD
02920 739207 07912 175403
ceri@rhag.net www.rhag.net

DARPARIAETH MUDIAD MEITHRIN/ MUDIAD MEITHRIN PROVISION

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar



Mae Mudiad Meithrin yn fudiad gwirfoddol ac mae'n cael ei gydnabod fel prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â 01978 363422

Mudiad Meithrin is a voluntary organisation and is the main provider of Welsh-medium early years care and education in the voluntary sector. Our aim is to give every young child in Wales the opportunity to benefit from early years care and education experiences through the medium of Welsh

For more information, contact: 01978 363422

CYLCHOEDD TI A FI / TI A FI PARENT TODDLER GROUPS

Cylch Ti a Fi Capel Bethesda	Yr Wyddgrug / Mold
Cylch Ti a Fi Y Fflint	Y Fflint / Flint
Cylch Ti a Fi Garden City	Garden City
Cylch Ti a Fi Helygain	Helygain / Halkyn
Cylch Ti a Fi Maesglas	Maesglas / Greenfield
Cylch Ti a Fi Mornant	Picton
Cylch Ti a Fi Terrig	Treuddyn
Cylch Ti a Fi Treffynnon	Treffynnon / Holywell
Cylch Ti a Fi Y Dreflan	Yr Wyddgrug / Mold
Cylch Ti a Fi Y Bwcle	Bwcle / Buckley
Cylch Ti a Fi Shotton	Shotton

CYLCHOEDD MEITHRIN / WELSH MEDIUM PLAY GROUPS

Cylch Chwarae Cymraeg Y Fflint*	Y Fflint/Flint
Cylch Meithrin Mwy Gwenffrwd	Treffynnon/Holywell
Cylch Meithrin Mwy Glanrafon	Yr Wyddgrug/Mold
Cylch Mornant	Picton
Cylch Terrig	Treuddyn
Cylch Garden City*	Garden City
Cylch Shotton	Shotton (agor/opening 2014)
Cylch Treffynnon*	Treffynnon/Holywell
Cylch Yr Wyddgrug	Wyddgrug/Mold

*Darpariaeth Dechrau'n Deg / Flying Start Provision

Cylchoedd Ti A Fi
Dyma gyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu, rhannu profiadau ac i chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig.

Ti A Fi Parent Toddler Groups
These groups offer children from birth through to compulsory school age and their parents an excellent opportunity to meet once a week to socialise, share experiences and to play together in an informal Welsh environment

Cylchoedd Meithrin
Mae'r cylchoedd meithrin yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 – 4 mlwydd oed.

Cylchoedd Meithrin Welsh Medium Playgroups
The cylchoedd meithrin (playgroups) offer daily sessional care and education for children 2 – 4 years old.

YSGOLION / SCHOOLS

Ysgol Uwchradd Maes Garmon*, Yr Wyddgrug/Mold 01352 750 678
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon/Holywell 01352 713158
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug/Mold 01352 700384
Ysgol Terrig, Treuddyn 01352 770235
Ysgol Croes Atti, Y Fflint/Flint 01352 733335
Ysgol Mornant, Picton 01745 560433.
Ysgol Croes Atti@Glannau Dyfrdwy (agor/opening 2014), Shotton 01352 733335

*ysgol uwchradd / secondary school

GWEFANNAU A RHIFAU CYSWLLT DEFNYDDIOL
USEFUL WEBSITES AND CONTACT NUMBERS

Cymraeg i Oedolion/Welsh for Adults

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru

Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn y Gogledd sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws Gogledd Cymru, gan weithio gydag 8 o ddarparwyr annibynnol i sicrhau'r safonau uchaf o ran ansawdd dysgu. Rydym hefyd yn gweithredu fel siop-un-stop ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac adnoddau i'w rhoi ar y trywydd cywir ac i gael y profiad dysgu gorau bosibl.

North Wales Welsh For Adults Centre

In a nutshell, we co-ordinate the Welsh for Adults provision across North Wales, working with 8 independent providers to deliver the highest standards of learning. We also act as a one-stop-shop for Welsh learners in the region and offer information, advice and resources to put them on the right track and help ensure the best possible learning experience.

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Dysgu Gydol Oes, Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UT
Ffôn: 01248 383928
Ffacs: 01248 383928
www.learncymraeg.org

Sefydliadau/Organisations

Llywodraeth Cymru – Adran y Gymraeg / Welsh Government – Welsh Department
wales.gov.uk/topics/welshlanguage/?lang=cy

Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
www.flintshire.gov.uk/

Menter Iaith Sir y Fflint
www.menteriaithsiryfflint.co.uk

Mudiad Meithrin
www.meithrin.co.uk

www.mabonamabli.co.uk

www.dewin.co.uk

www.bilingualfrombirth.com

TWF
www.twfcymru.com

Adnoddau/Resources

Cyngor Llyfrau Cymru / Welsh Books Council
www.cllc.org.uk/hafan

Gwyliwch raglenni a chwaraewch gemau ar lein / Watch programmes and play games online

s4c.co.uk/cyw

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint / Flintshire Family Information Service

01244 547017
fisf@flintshire.gov.uk

design & print: monddi.co.uk